

Ydych chi eisiau gwella gwasanaethau a chyfathrebu ac ymgysylltu'n well â phobl sy'n defnyddio eich gwasanaethau yng Nghymru?

Cysylltwch â [cymraeggwaith@dysgucymraeg.cymru](mailto:cymraeggwaith@dysgucymraeg.cymru) i drafod eich gofynion.

---

Mae Cymraeg Gwaith yn rhoi'r hyblygrwydd a'r gefnogaeth i chi wneud yn siŵr bod gan eich gweithlu y sgiliau iaith Gymraeg i ddarparu eich gwasanaethau'n dda.

Mae cefnogaeth ariannol ar gael i'ch sector er mwyn i chi allu dewis a theilwra hyfforddiant yn ôl eich anghenion.

Cewch ddewis o amrywiaeth o opsiynau cwrs o ddechreuwr i arbenigwr neu cewch ddewis yr elfennau fydd yn gweithio i chi.

---

I gael rhagor o wybodaeth, neu i siarad am opsiynau eraill cysylltwch â'n tîm ar [cymraeggwaith@dysgucymraeg.cymru](mailto:cymraeggwaith@dysgucymraeg.cymru)

**0300 3234324**

Do you want to improve services and communicate and engage better with people who use your services?

Contact **[workwelsh@learnwelsh.cymru](mailto:workwelsh@learnwelsh.cymru)** to discuss your requirements.

---


Work Welsh gives you the flexibility and support to equip your workforce with Welsh language skills to deliver your services well.

We are providing financial support for training for your sector in 2017 to allow you to choose and tailor courses to suit you.

Choose from a range of course options from beginner to expert or simply pick out the elements that will work for you.

---

To find out more, or to talk about other options contact our team on **[workwelsh@learnwelsh.cymru](mailto:workwelsh@learnwelsh.cymru)**  
**0300 3234324**



---

Mae Cymraeg Gwaith wedi'i gynllunio er budd

- ▲ y bobl sy'n defnyddio eich gwasanaethau
- ▲ eich gweithlu
- ▲ chi, y cyflogwr

Rydych chi'n gwybod yn well na neb beth yw nodau a gweledigaeth eich sefydliad, yr heriau a'r pwysau mae'n eu hwynebu. Mae mwy nag un ffordd o wneud yn siŵr bod gan eich gweithlu y sgiliau iaith Gymraeg sydd eu hangen arnynt.

Rydyn ni wedi trefnu Cymraeg Gwaith yn dair adran. Os nad ydych chi'n gweld beth sydd ei angen arnoch, cysylltwch â ni i drafod eich gofynion. Gallwn eich helpu chi i ddatblygu eich cynllun unigryw eich hun.

**Cyrsiau ar-lein:** Cyflwyno sgiliau iaith Gymraeg drwy gwrs ar-lein 10 awr i alluogi eich gweithlu i gyfarch a defnyddio Cymraeg sylfaenol gyda phobl sy'n defnyddio eich gwasanaethau.

**Cyrsiau dwys:** Datblygu'r sgiliau a'r hyder i fod yn rhugl yn Gymraeg yn y gweithle gyda chyrsiau llawn amser neu ran amser wedi'u hariannu'n llwyr yn cael eu darparu'n hyblyg.

**Cyrsiau preswyl:** Cynyddu gallu eich sefydliad i ddarparu gwasanaethau iaith Gymraeg gyda chyrsiau preswyl pwrpasol wedi'u hariannu'n llwyr.

---

## Work Welsh is designed to benefit

- ▲ the people who use your services
- ▲ your workforce
- ▲ you, the employer

You know your organisation's goals and visions, its challenges and its pressures better than anyone. There is no one size fits all when it comes to equipping your workforce with the Welsh language skills they need.

We have structured Work Welsh into three sections. If you don't see what you need, get in touch to discuss your requirements. We can help you develop your own unique plan.

**Online courses:** Introduce Welsh language skills via a ten hour online course to enable your workforce to greet and use basic Welsh with the people who use your services.

**Intensive courses:** Develop the skills and confidence for Welsh fluency with fully funded full or part time courses delivered flexibly.

**Residential courses:** Increase your organisation's capacity to deliver Welsh language services with fully funded tailored residential courses.

# Astudiaeth Achos

---

## SIÂN GRIFFITHS

FFISIOOTHERAPYDD YN YSBYTY GWYNEDD, BANGOR

“Cefais fy ngeni a’m magu yn Rhosllanerchrugog, ger Wrecsam ac fe wnes i ddysgu hanfodion yr iaith Gymraeg tra oeddwn yn yr ysgol. Symudais i Ynys Môn yn 2014 fel ffisiotherapydd hyfforddedig ac roeddwn i’n ddigol i’w gael gwaith yn yr ardal leol.”



Er bod gen i rywfaint o Gymraeg roeddwn i’n dal i gael trafferth cyfathrebu â’m cleifion, oedd yn siarad Gymraeg fel iaith gyntaf. Roedd hyn braidd yn rhwystredig i’r cleifion gan nad oeddent yn gwybod beth y dylent fod yn ei wneud. Penderfynais mai’r ateb gorau er mwyn i bawb fanteisio’n llawn ar y proffesiwn gofal iechyd oedd i mi ddysgu Gymraeg.

Dechreuais ddysgu Gymraeg ym mis Mawrth 2014 ac ar hyn o bryd rydw i’n astudio Gymraeg i Oedolion ar lefel uwch ym Mhrifysgol Bangor. Mae’r tiwtoriaid Gymraeg yn wych ac maen nhw wedi bod yn gefnogol iawn.

Rydw i’n teimlo fy mod i wedi cael budd enfawr yn y gwaith ac yn y gymuned. Mae cleifion yn deall fy mod i’n dysgu ac mae llawer ohonynt yn hapus i helpu mewn unrhyw ffordd. Maen nhw’n ymateb yn fwy cadarnhaol i gyfarwyddiadau ac mae ganddyn nhw agwedd fwy cadarnhaol. Mae hyn yn aml yn galluogi’r driniaeth i fod yn fwy llwyddiannus.

Rheswm arall dros ddysgu Gymraeg yw fy mod i’n bersonol yn teimlo, a minnau wedi fy ngeni a’m magu yng Nghymru, ei bod yn bwysig i mi siarad yr iaith.

---

## DR JONATHAN ERVINE

UWCH DDARLITHYDD MEWN FFRANGEG YM MHRIFYSGOL BANGOR

“Rydw i’n hanu’n wreiddiol o Fife yn yr Alban a symudais i Ogledd Cymru i ddechrau gweithio fel Darlithydd mewn Ffrangeg ym Mhrifysgol Bangor, ar ôl treulio ychydig flynyddoedd yn gweithio yn Lille yn Ffrainc ac yna astudio ar gyfer PhD yn Leeds.”



Ar y pryd doeddwn i ddim yn gwybod llawer am yr ardal - dim ond ei bod yn ardal lle’r oedd llawer o siaradwyr Gymraeg ac roeddwn i am ddysgu’r iaith er mwyn dod i adnabod yr ardal lle’r oeddwn i’n gweithio ac yn byw.

Gan fod cynifer o bobl Gymraeg eu hiaith yn gweithio yn y Brifysgol, mae’n bleser i mi allu siarad Gymraeg â nhw. Rydw i hefyd yn siarad Gymraeg mewn cyfarfodydd yn ogystal â gyda’m cydweithwyr, a hynny wrth addysgu, cyflwyno fy ngwaith ymchwil ac mewn cyfweiliadau yn y cyfryngau.

Doedd dysgu Gymraeg ddim yn elfen orfodol o’m swydd, ond i mi, mae’r iaith Gymraeg wedi dod yn rhan bwysig o’m gwaith ym Mhrifysgol Bangor. Mae’r Brifysgol yn sefydliad dwyieithog felly mae’n gwneud synnwyr ceisio defnyddio’r Gymraeg a’r Saesneg. Rydw i’n hoffi clywed a defnyddio’r iaith bron bob dydd.

Yn ogystal â bod yn fudd i mi yn fy mywyd gwaith, mae fy ngwraig a minnau hefyd yn magu ein plant i fod yn ddwyieithog. Mae fy ngwraig yn cael gwersi Gymraeg ar hyn o bryd yn ein canolfan Gymraeg i Oedolion leol. I ddechrau roedd yn teimlo braidd yn rhyfedd defnyddio Gymraeg gyda’n mab cyntaf gan nad oeddwn i’n defnyddio’r un math o eirfa ag yr oeddwn i gyda’m cydweithwyr a’r myfyrwyr! Ond mae Tomos yn 4 oed erbyn hyn ac mae’n teimlo’n gwbl naturiol.

# Case Studies

---

## SIÂN GRIFFITHS

PHYSIOTHERAPIST AT YSBYTY GWYNEDD, BANGOR

“I was born and raised in Rhosllanerchrugog, by Wrexham and I did learn the basics of the Welsh language when I was at school. I moved to Anglesey in 2014 as a trained physiotherapist and was fortunate to secure a job in the local area.”



Though I had the basics of the Welsh language I still found it very difficult to communicate with my patients whose first language was Welsh. This led to some frustration for the patients not knowing what they should be doing. I decided that the best solution for both parties to get the full benefit from the health care profession was for me to learn Welsh.

I started learning Welsh in March 2014 and I'm currently studying at an advanced level of Welsh for Adults at Bangor University. The Welsh tutors are excellent and have been very supportive.

I feel that I have benefited immensely both at work and in the community. Patients understand I'm learning and many are happy to assist in any way they can. They react more positively to instructions and have a more positive attitude. This enables treatment to often be more successful.

Another reason that I wanted to learn Welsh is that being Welsh born and bred I personally felt that it was important for me to speak the language.

---

## DR JONATHAN ERVINE

SENIOR LECTURER IN FRENCH AT BANGOR UNIVERSITY

“I'm originally from Fife in Scotland and I moved to North Wales to start work as a Lecturer in French at Bangor University, after spending a few years working in Lille in France, and then studying for a PhD in Leeds.”



At the time I didn't know very much about the area but I knew it was an area with lots of Welsh speakers and I wanted to learn the language to get to know the place where I worked and lived.

Because there are so many Welsh speaking people working at the university, it's a pleasure for me to be able to speak with them in Welsh. I also speak Welsh in meetings with students as well as colleagues.

Learning Welsh wasn't a compulsory element of my job but for me the Welsh language has become an important part of my work at Bangor University. The university is a bilingual establishment so it makes sense to try and use both Welsh and English. I like to hear, and use, the language pretty much every day.

As well as benefiting my working life, my wife and I are also raising our children to be bilingual. My wife is currently having Welsh lessons at our local learning centre. To begin with it felt a bit odd using Welsh with our first son because you don't use the same kind of vocabulary as you do with your colleagues and students! But Tomos is four years old now and it feels completely natural.



## Awdurdodau Lleol Iechyd a Gofal Cymdeithasol Addysg Bellach ac Uwch Gwasanaethau Brys Y Trydydd Sector

# Yn ôl yr arolygon diweddar, mae tua chwarter y boblogaeth yn siarad rhywfaint o Gymraeg\*

Rydyn ni'n rhoi cymorth ariannol i hyfforddi eich gweithwyr gan fod gan eich sector gymaint i'w gynnig i'r boblogaeth Gymraeg ei hiaith.

Gallwch helpu eich gweithwyr i ddefnyddio'r sgiliau iaith sydd ganddynt yn barod, neu i ddysgu sgiliau newydd.

Mae diogelwch, parch ac urddas cleifion wrth wraidd yr holl ddadleuon dros gryfhau'r ddarpariaeth iaith Gymraeg ym maes **iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol**. Mae gofal ac iaith yn mynd law yn llaw.\*\*

Mae gan **awdurdodau lleol** y potensial i fod yn arwyddocaol yn y broses o gynllunio iaith yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys addysg, darpariaeth chwaraeon, gwasanaethau ieuencid, gwasanaethau cymdeithasol, tai, polisiâu datblygu economaidd, datblygu ac adfywio cymunedol a chynllunio Cymraeg eu hiaith.\*\*\*

Mae sefydliadau sy'n rhan o'r **trydydd sector** yn effeithio ar fywydau llawer o bobl yng Nghymru drwy, er enghraifft, ddarparu gofal a chymorth, gweithio gyda chymunedau a chynnwys pobl mewn ystod eang o ddigwyddiadau a gweithgareddau. Mae'n bwysig felly sicrhau bod defnydd sefydliadau trydydd sector o'r Gymraeg yn cael ei hyrwyddo a'i hwyluso gymaint â phosibl.\*\*\*

Mae Sefydliadau **Addysg Bellach ac Addysg Uwch** yn rhan o fywydau llawer o bobl yng Nghymru ac mae'n bwysig felly sicrhau bod digon o gyfleoedd i siarad Cymraeg.


Mae'r **Gwasanaethau Brys** yn darparu gwasanaeth hanfodol i bobl Cymru. Mae gallu ymgysylltu a chyfathrebu â phobl yn Gymraeg yn gwella'r gwasanaethau hyn ymhellach.

---

\* Dangosodd Arolwg Defnyddio'r Iaith Gymraeg 2013-14 fod 23 y cant (673,700) o bobl 3 oed a throsodd yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn uwch na'r Cyfrifiad (19% yn 2011), ond yn is na'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth sy'n nodi 27 y cant (787,500) ac Arolwg Cenedlaethol Cymru, sy'n nodi 24 y cant (723,300).

\*\* O 'Mwy na Geiriau...' - fframwaith strategol dilynol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg eu hiaith ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol 2016 - 2019.

\*\*\* 'Strategaeth Iaith Gymraeg Iaith Fyw: Iaith Byw 2012-2017' Llywodraeth Cymru.



## Local Authorities Health & Social Care Further & Higher Education Emergency Services Third sector

# Recent surveys indicate that approximately a quarter of the population speaks some Welsh\*

We are providing financial support for training for your employees because your sector has so much to offer the Welsh speaking population.

You can help your employees to use the language skills they already have, or to learn new skills.

At the core of all arguments for strengthening Welsh language provision in **health, social services and social care** is patient safety, dignity and respect. Care and language go hand in hand.\*\*

**Local authorities** have the potential to be key players in the process of language planning in Wales. This includes Welsh-language education, play provision, youth services, social services, housing, community development and regeneration, planning, and economic development policies.\*\*\*

Organisations forming the **third sector** touch the lives of a great many people in Wales by, for instance, providing care and support, working with communities, and getting people involved in a wide range of events and activities. It is important, therefore, to ensure that the use of Welsh by third sector organisations is promoted and facilitated as much as possible.\*\*\*

**Further and Higher Education** establishments are a part of many people's lives in Wales and it is important, therefore, to make sure there are plenty of opportunities to speak Welsh.

The **Emergency Services** provide a critical service to the people of Wales. Being able to engage and communicate with people in Welsh enhances these services even further.

---

\* The 2013-14 Welsh Language Use Survey showed that 23 per cent (673,700) of all those aged 3 and over could speak Welsh. This is higher than the Census (19% in 2011), but lower than the Annual Population Survey and the National Survey for Wales, which report 27 per cent (787,500) and 24 per cent (723,300) respectively.

\*\* From 'More than just words' - the Welsh Government's follow-on strategic framework for Welsh language services in health, social services and social care for 2016 to 2019.

\*\*\* Welsh Government's 'A living language: a language for living Welsh Language Strategy 2012 - 2017'



# Work Welsh supports Welsh language policies and strategies

## A Living Language: a language for Living

"The Welsh Government's Welsh Language Strategy for 2012 to 2017 promotes and facilitates the use of Welsh in everyday life in order to see the Welsh language thrive in Wales.

This includes providing increased opportunities for people to use Welsh in the workplace, so that more Welsh speakers use the language in their work."

## Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015

"The Act aims to improve social well-being, the economy and the culture of Wales by placing a duty on public bodies to think more sustainably and in the longer-term.

It aims to develop a society that promotes and protects the culture, heritage and the Welsh language and encourages participation in the arts, sports and recreation.

In the context of the Welsh language, the aim is to have a vibrant culture of Wales where Welsh is booming."

## Taking Wales Forward 2016 - 2021

"This sets out the Welsh Government's program to improve the Welsh economy and public services, leading to a safe and prosperous, healthy and energetic, ambitious and learning, united and related country.

They are ambitious measures aimed at making a difference to everyone, at every stage of their lives. The priority for the Welsh language is to work towards achieving one million Welsh speakers by 2050. It includes a commitment to encourage more people to speak and use Welsh in their daily lives and it encourages businesses and other organisations to invest in the promotion and use of the language."

## The Welsh Language (Wales) Measure 2011

"This Measure gives Welsh language official status in Wales and it means the Welsh language should not be treated less favourably than English.

The Welsh Language Commissioner has set Welsh language Standards for public sector organisations which has led to increased rights for Welsh speakers."

# Cymraeg Gwaith yn cefnogi polisïau a strategaethau'r Gymraeg

## laith Fyw: laith Byw

"Mae Strategaeth laith Gymraeg Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012 - 2017 yn hybu ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ym mywyd bob dydd er mwyn gweld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru.

Mae hyn yn cynnwys cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle fel bod mwy o siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith."

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

"Nod y Ddeddf yw gwella llesiant cymdeithasol, economi a diwylliant Cymru drwy roi dyletswydd ar gyrrff cyhoeddus i feddwl mewn ffordd fwy cynaliadwy a hirdymor.

Mae'n anelu at ddatblygu cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

Yng nghyd-destun y Gymraeg, y nod yw cael diwylliant bywiog yng Nghymru lle mae'r Gymraeg yn ffynnu."

## Symud Cymru Ymlaen 2016 - 2021

"Mae hwn yn nodi rhaglen y Llywodraeth i wella economi a gwasanaethau cyhoeddus Cymru, gan arwain at wlad sy'n ffyniannus a diogel, yn iach ac egnïol, yn uchelgeisiol ac yn dysgu, yn unedig a chysylltiedig.

Maent yn fesurau uchelgeisiol sydd â'r nod o wneud gwahaniaeth i bawb, ar bob cam o'u bywydau. Y flaenoriaeth o ran y Gymraeg yw gweithio tuag at sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'n cynnwys ymrwymiad i annog mwy o bobl i siarad a defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd ac mae'n annog busnesau a sefydliadau eraill i fuddsoddi yn y gwaith o hyrwyddo a defnyddio'r iaith."

## Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

"Mae'r Mesur hwn yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru ac mae'n golygu na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi pennu Safonau Iaith Gymraeg ar gyfer sefydliadau sector cyhoeddus sydd, yn eu tro, wedi arwain at greu mwy o hawliau ar gyfer siaradwyr Cymraeg."

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn gyfrifol am bob agwedd ar y rhaglen addysg Cymraeg i Oedolion, yn cynnwys y cynllun Cymraeg Gwaith.

Mae Cymraeg Gwaith yn rhaglen ddysgu a gaiff ei hariannu'n llwyr sydd wedi'i chynllunio i'ch cefnogi i ddarparu hyfforddiant iaith Gymraeg i'ch gweithlu. .

Y ganolfan, a gaiff ei hariannu gan Lywodraeth Cymru, yw'r sefydliad cenedlaethol newydd sy'n gyfrifol am sicrhau dysgu arloesol a chynhwysol o safon.

**Hyfforddiant wedi'i ariannu'n llwyr  
Cyrsgiau ar-lein Cyrsgiau preswyl  
Cyrsgiau dwys Gwybodaeth a  
chymorth i gyflogwyr**

I gael rhagor o wybodaeth, neu i siarad am opsiynau eraill cysylltwch â'n tîm ar [cymraeggwaith@dysgucymraeg.cymru](mailto:cymraeggwaith@dysgucymraeg.cymru)

**0300 3234324**

The National Centre for Learning Welsh is responsible for all aspects of the Welsh for Adults education programme, including the Work Welsh plan.

Funded by the Welsh Government, the Centre is a new national organisation tasked with ensuring high standards of innovative and inclusive learning.

Work Welsh is a fully funded learning programme designed to support you to deliver Welsh language training for your workforce.

---

**Fully funded training Online courses Residential courses Intensive courses Information and support for employers**

---

To find out more, or to talk about other options contact our team on **workwelsh@learnwelsh.cymru**  
**0300 3234324**